Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

Llywodraethu Prydain

Trefn Lywodraethu Prydain

Diwrnod Etholiadau

Pleidleisio ar y Penwythnos

Papur Ymgynghori CP 13/08. Cyhoeddwyd ar 24/06/08. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 26/09/08.



© Hawlfraint y Goron 2008

Gellir copïo'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Brenhinol a logos adrannau neu Asiantaethau eraill) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd dan hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio'r deunydd hwn at unrhyw ddiben arall, ysgrifennwch at Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus/Office of Public Sector Information, Tîm Polisi Gwybodaeth/Information Policy Team, Richmond, Surrey, TW9 4DU neu e-bostio: licensing@opsi.gov.uk

Diwrnod Etholiadau

Pleidleisio ar y Penwythnos

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
Gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
Ar orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2008

Cm 7334 £13.90

Cynnwys

Rhagair	1
Crynodeb Gweithredol	2
Cyflwyniad	3
Y Cynigion	6
Holiadur	17
Amdanoch chi	22
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	23
Meini prawf Ymgynghori	25
Atodiad A: Asesiad Effaith	26
Atodiad B: Asesiad Rhannol o'r Effaith ar Gydraddoldeb	32

Rhagair

Yn y Papur Gwyrdd *Governance of Britain* a gyhoeddwyd fis Gorffennaf diwethaf, cyflwynodd y Llywodraeth raglen uchelgeisiol o adnewyddu cyfansoddiadol, ar gyfer creu perthynas newydd rhwng y Llywodraeth a'r dinesydd. Mae pleidleisio wrth wraidd y broses ddemocrataidd, a rhan allweddol o ailfywiogi ein democratiaeth yw ystyried sut y gallwn nodi a chwalu'r rhwystrau i ymarfer yr hawl hwnnw.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn eich gwahodd i roi eich barn ynghylch a ellir gwneud y broses bleidleisio'n fwy cyfleus drwy newid amseriad y Diwrnod Pleidleisio ei hun, ac a oes camau eraill hefyd y dylid eu cymryd ochr yn ochr â hynny i'w gwneud yn haws i bobl bleidleisio - er enghraifft, defnyddio mwy o bleidleisio ymlaen llaw neu bleidleisio o bell. Mae'r papur yn cyflwyno rhai o'r cwestiynau allweddol y byddai'n rhaid rhoi sylw iddynt petai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud, megis beth fyddai costau'r newid, a sut i ystyried anghenion grwpiau crefyddol.

Yr ymarfer ymgynghori hwn yw man cychwyn proses o ymgysylltu. Bydd eich ymatebion yn sail i Uwchgynhadledd Dinasyddion yn ddiweddarach eleni, lle gwahoddir trawstoriad o'r cyhoedd i ystyried y mater yn fanwl ac i wneud argymhelliad i'r Senedd ynghylch a ddylid symud y Diwrnod Pleidleisio i'r penwythnos. Gobeithio y bydd y ffurf newydd hon ar lunio polisi yn helpu'r Llywodraeth i ymgysylltu'n well â'r dinasyddion a wasanaethir ganddi.

Hefyd, rwy'n awyddus i ddefnyddio'r Uwchgynhadledd honno i gael trafodaeth ehangach am y ffactorau sy'n cymell pobl i ymarfer eu hawl i bleidleisio. Mae'r ymdeimlad o "ddyletswydd" ddinesig i bleidleisio wedi lleihau dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae'n hollbwysig i ni i gyd ein bod yn deall y rhesymau, a beth allem ei wneud i wrthdroi'r tueddiad o lai'n pleidleisio. Bydd y canlyniadau'n cyfrannu at drafodaeth y Llywodraeth gyda dinasyddion ar yr hawliau a'r cyfrifoldebau yr ydym i gyd yn eu rhannu.

Mawr obeithiaf y bydd amrywiaeth mor eang ag y bo modd o unigolion a grwpiau'n rhoi eu barn ar Ddiwrnod Pleidleisio.

Michael Wills
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i greu perthynas newydd rhwng y Llywodraeth a'r dinesydd. I nodi dechrau'r broses hon, mae'r Papur Gwyrdd *The Governance of Britain* yn cynnwys cynigion i wella hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, ac mae'n pennu'n gliriach y gwerthoedd sy'n sail i ddinasyddiaeth Brydeinig. Nid yw'r cynigion yn lasbrint terfynol ond, yn hytrach, yn dangos y cyfeiriad tuag at setliad cyfansoddiadol newydd. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynrychioli cam arall ar y siwrnai honno.

Un o nodau'r rhaglen yw adfywio ein democratiaeth a rhoi'r gallu i ddinasyddion i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Fel rhan o hyn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu archwilio'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i bleidleisio a sut y gellir goresgyn y rhain. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau ffisegol i bleidleisio ar Ddiwrnod Etholiad.

Mae tybiaeth nad dydd Iau yw'r diwrnod mwyaf hwylus ar gyfer pleidleisio ac y byddai newid i bleidleisio ar benwythnos yn gwella mynediad a chyfleoedd i bleidleisio. Yn y Papur Gwyrdd, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i ymgynghori ag awdurdodau lleol ac eraill ynghylch manteision symud y diwrnod pleidleisio ar gyfer etholiadau cyffredinol [a/neu etholiadau lleol] o ddydd Iau i'r penwythnos ac ar y ffordd orau o wneud hyn. Pwysleisiodd y byddai'r ymgynghoriad yn ystyried anghenion grwpiau crefyddol, i sicrhau y byddai'r rhai â phryderon crefyddol am bleidleisio ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul yn cael cyfle i bleidleisio mewn ffordd sy'n gydnaws â'u daliadau.

Un o nodau strategol y Llywodraeth yw sicrhau bod pobl yn gallu ymarfer eu hawl i bleidleisio mewn ffordd hwylus a heb rwystrau diangen. Ei hamcan yw sicrhau bod y prosesau pleidleisio'n hygyrch, yn hwylus ac yn hawdd eu defnyddio ond heb amharu ar ddiogelwch. I'r diben hwn, mae'r Llywodraeth hefyd yn awyddus i gael barn pobl ar y mathau canlynol o bleidleisio ymlaen llaw ac a fyddai'r rhain yn ddewisiadau amgen derbyniol i ddiwrnodau pleidleisio'n cael eu cynnal ar ddydd Iau neu'n cefnogi diwrnodau pleidleisio ar y penwythnos:

- pleidleisio ymlaen llaw mewn gorsafoedd pleidleisio; a
- defnyddio pleidleisio ymlaen llaw a phleidleisio o bell dros y rhyngrwyd/ffôn.

Mae'r Llywodraeth yn cadw meddwl agored ar y mater hwn ac mae'n awyddus i gael barn pawb sydd â diddordeb yn y pwnc.

.

Cyflwyniad

1. Nod y papur hwn yw ysgogi trafodaeth am fanteision symud Diwrnod Etholiadau o ddydd Iau i'r penwythnos, ac am y ffordd orau o wneud hyn.

2. Mae'r papur ymgynghori'n ystyried sawl cwestiwn ond, yn benodol, mae'n edrych ar:

   - faterion perthnasol, gan gynnwys pryderon crefyddol;
   - a fyddai symud diwrnod yn effeithio ar ddiogelwch etholiadau;
   - y berthynas rhwng pleidleisio mewn absenoldeb (e.e. pleidleisio drwy'r post) a diwrnod yr etholiad;
   - i ba raddau y byddai dulliau eraill o bleidleisio, er enghraifft, pleidleisio "o bell" drwy bleidleisiau post neu dros y rhyngrwyd/ffôn, neu bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio, yn ddulliau amgen derbyniol ar gyfer y rhai y byddai pleidleisio ar y penwythnos yn peri problemau am resymau crefyddol neu eraill;
   - beth, ym marn pobl, yw manteision ac anfanteision e-bleidleisio o bell;
   - a fyddai newid diwrnod etholiadau i'r penwythnos, a/neu'r mesurau eraill ar gyfer hwyluso rhagor ar y broses bleidleisio, yn ysgogi'r rhai nad ydynt yn pleidleisio i wneud hynny; a
   - a fydd y manteision posibl yn drech na'r costau ychwanegol posibl yn sgil pleidleisio ar y penwythnos.

3. Anelir yr ymgynghoriad at y pleidleisiwr cyffredinol ac at y rhai sydd â diddordeb penodol yn y broses etholiadol ac amseriad etholiadau, megis pleidiau gwleidyddol, awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol yn y DU. Fe'i hanelir hefyd at grwpiau crefyddol a mudiadau yn y sector gwirfoddol.

4. Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a daw o fewn cwmpas y Cod. Dilynwyd y Meini Prawf Ymgynghori sydd i'w gweld ar dudalen 30 y ddogfen hon.

5. Mae Asesiad Effaith yn dangos bod angen i awdurdodau lleol, gweinyddwyr etholiadol, grwpiau crefyddol ac ysgolion yn benodol ystyried effeithiau newid posibl. Gallai newid y diwrnod pleidleisio olygu costau ychwanegol neu arbedion i'r sector cyhoeddus a phleidiau gwleidyddol. Mae Asesiad Effaith wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.

6. Cynhelir Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb hefyd i ddelio gyda materion yn ymwneud â hil, anabledd a rhywedd. Mae Asesiad Rhannol o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

Byddai'r Llywodraeth yn croesawu sylwadau am yr Asesiad Effaith ac ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

7. Mae copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at:

- Y Comisiwn Etholiadol
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)
- Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban
- Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol
- Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Pleidiau gwleidyddol
- Aelodau Seneddol
- Aelodau Senedd yr Alban
- Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gweinyddiaethau Datganoledig (Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban)
- Grwpiau ffydd
- Operation Black Vote
- Mudiadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau
- Help the Aged
- Y Post Brenhinol
- Cymdeithas Hansard
- Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
- Cymdeithas HS Chapman

8. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysol a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn am y pwnc y mae'r papur hwn yn ymdrin ag ef[1].

9. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio ar gyfer Uwchgynhadledd Dinasyddion a fydd yn ystyried y rhwystrau ffisegol a rhwystrau eraill i bleidleisio. Gwahoddir trawstoriad o'r cyhoedd i ystyried y mater yn fanwl ac i wneud argymhelliad i'r Senedd ynghylch a ddylid symud y Diwrnod Etholiadau i'r penwythnos.

10. Ar 20 Mai 2008, lansiodd yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ei hymgynghoriad ar symud dyddiad etholiadau llywodraeth leol Lloegr i ddyddiad etholiadau senedd Ewrop yn 2009. Cyfeiriwyd ynddo at y papur ymgynghori hwn.

Ariannu symud i bleidleisio ar y penwythnos

11. Gall newid i bleidleisio ar benwythnosau wneud y gwaith o gynnal etholiadau'n ddrutach. Ariennir etholiadau cenedlaethol yn ganolog ond ariennir etholiadau lleol o gyllidebau awdurdodau lleol. Mae'r rhagamcanion ynghylch faint yn fwy fydd cost etholiadau lleol ar benwythnosau yn amrywio gan nad oes gwybodaeth fanwlgywir ar gael ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol ynghylch cost cynnal etholiadau lleol. Mae'r rhagamcanion yn yr asesiad effaith yn seiliedig ar gost Etholiad Cyffredinol y mae gennym wybodaeth gywir ar ei chyfer ac awgryma'r rhain y gall y gost ychwanegol amrywio rhwng £38 miliwn a £58 miliwn ar gyfer pob etholiad cenedlaethol yn dibynnu ar a gynhelir diwrnod etholiad ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul yn unig neu ar y ddau. Disgwyliwn i'r ymgynghoriad hwn ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn datblygu asesiad mwy manwlgywir o'r gost. Does dim adnoddau wedi'u rhoi o'r neilltu ar hyn o bryd i gefnogi'r broses o symud i bleidleisio ar benwythnos a byddai angen i effaith unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol gael ei hariannu'n briodol.

[1] Mae'r papur ymgynghori hwn wedi'i anfon hefyd at adrannau eraill yn y Llywodraeth iddynt ei ystyried ac er mwyn cael eu barn.

Y Cynigion

12. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i gynnwys y cyhoedd a phartïon â diddordeb yn y broses o archwilio'r achos dros gynnal yr etholiadau canlynol ar benwythnos:

    - Etholiadau cyffredinol seneddol y DU;
    - Etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr[2]; ac
    - Etholiadau Senedd Ewrop.[3]

13. Pwrpas y papur ymgynghori hwn yw casglu gwybodaeth am oblygiadau newid o'r fath, a fydd yn ffurfio rhan o'r mewnbwn i'w ystyried mewn Uwchgynhadledd Dinasyddion ar y mater hwn.

14. Mae Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Alban wedi cadarnhau y gellid ystyried pleidleisio ar y penwythnos ar gyfer etholiadau Cynulliad Cymru a Senedd yr Alban yn y dyfodol.

Y system bresennol yn y DU

15. Mae adran hon y papur ymgynghori'n gosod allan y trefniadau presennol ar gyfer cynnal etholiadau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig ac etholiadau lleol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

16. Cyfrifoldeb senedd y DU yw materion yn ymwneud ag etholiadau cyffredinol seneddol ac etholiadau lleol y DU yng Nghymru a Lloegr. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, ni chaiff pleidleisio yn etholiadau'r DU ymestyn dros fwy nag un diwrnod.

[2] Mae 'etholiadau lleol' yn cynnwys etholiadau i gynghorau sir a chynghorau dosbarth (yn cynnwys y rhai sydd â statws bwreistref neu ddinas) un haen a dwy haen, bwreistrefi metropolitan a bwrdeistrefi Llundain yn Lloegr ac i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru.

[3] Er na nodwyd hynny'n wreiddiol yn y Papur Gwyrdd Governance of Britain, teimla'r Llywodraeth y dylid hefyd ystyried manteision symud etholiadau Senedd Ewrop i'r penwythnos oherwydd gellir cyfuno'r rhain ag etholiadau lleol.

Etholiadau Cyffredinol

17. Er 1945 mae pob etholiad cyffredinol yn y DU wedi'i gynnal ar ddydd Iau[4]. Cyn 1945, cynhaliwyd etholiadau cyffredinol ar amrywiaeth o ddiwrnodau; cynhaliwyd yr etholiad diwethaf yn y DU ar benwythnos ddydd Sadwrn 14 Rhagfyr 1918.

Etholiadau Lleol yng Nghymru a Lloegr

18. Mae effaith gyfunol y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 ac Adran 37 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau lleol ar y dydd Iau cyntaf ym Mai bob pedair blynedd (er y gall etholiadau gael eu cynnal mewn blynyddoedd gwahanol yn dibynnu ar y math o awdurdod).

Etholiadau Eraill

Yr Alban

Senedd yr Alban

19. Pennir amseriad etholiadau i Senedd yr Alban yn Neddf yr Alban 1998. Datgana Adran 2 y Ddeddf y dylai etholiadau gael eu cynnal fel arfer ar y dydd Iau cyntaf ym Mai, bob pedair blynedd. Ond, mae gan Swyddog Llywyddol Senedd yr Alban y pŵer i gynnig diwrnod ar gyfer cynnal yr etholiad sydd heb fod yn fwy na mis yn gynharach neu fis yn hwyrach na'r dydd Iau cyntaf ym Mai. Gall Ei Mawrhydi wedyn drwy broclamasiwn dan Sêl yr Alban orchymyn cynnal etholiad ar y diwrnod a gynigir.

20. Gosodir y dyddiad ar gyfer etholiad cyffredinol anarferol[5] yn yr Alban gan yr un broses lle mae'r Swyddog Llywyddol yn cynnig y diwrnod ac wedyn bydd Ei Mawrhydi drwy broclamasiwn yn gorchymyn cynnal yr etholiad ar y diwrnod a gynigir. Gellir ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.

21. Y Swyddog Llywyddol hefyd sy'n pennu dyddiad yr etholiad ar gyfer Isetholiad Senedd yr Alban, a gall hwn hefyd gael ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.

[4] Does dim gofyniad statudol i gynnal etholiad seneddol ar ddydd Iau. Dan Reol 2 y rheolau seneddol, fel y'u nodir yn Atodlen 1 Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ni ellir cynnal etholiad ar nifer o ddiwrnodau penodedig: ar benwythnosau, ar wyliau banc neu ar ddiwrnodau a ddynodir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus. Pennir y cyfryw ddiwrnodau yn ddiwrnodau dies-non dan y ddeddf, sef diwrnod di-waith, ac felly fe'u heithrir at ddibenion amserlen etholiadau seneddol.

[5] Lle mae Senedd yr Alban yn penderfynu y dylai gael ei diddymu yn unol ag adran 3 Deddf yr Alban 1998.

Etholiadau lleol yn yr Alban

22. Mae cyfrifoldeb dros etholiadau lleol yn yr Alban wedi'i ddatganoli i Senedd yr Alban dan ddarpariaethau Deddf yr Alban 1998. Gosodir dyddiad arferol yr etholiadau hyn gan adran 43 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, sef y dydd Iau cyntaf ym Mai.

Gogledd Iwerddon

Cynulliad Gogledd Iwerddon

23. Mae amseriad etholiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon wedi'i bennu yn Neddf Gogledd Iwerddon 1998. Datgana Adran 31 (1) y Ddeddf mai dyddiad yr etholiad ar gyfer ethol pob Cynulliad fydd y dydd Iau cyntaf ym Mai yn y bedwaredd flwyddyn galendr ar ôl y flwyddyn yr etholwyd y cynulliad blaenorol; a bydd y cynulliad blaenorol yn cael ei ddiddymu ar ddechrau'r isafswm cyfnod sy'n dod i ben gyda'r dyddiad hwnnw.

24. Cynhelir etholiad anarferol yng Ngogledd Iwerddon os bydd y Cynulliad yn pasio penderfyniad i'w ddiddymu. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig dyddiad ar gyfer yr etholiad i ethol y Cynulliad nesaf[6].

Etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon

25. Mae'r dyddiad ar gyfer etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei bennu gan Adran 11 (1A) Deddf Cyfraith Etholiadol (Gogledd Iwerddon) 1962, sydd, fel y'i diwygiwyd, yn nodi mai'r dyddiad ar gyfer etholiadau arferol fydd y dydd Iau cyntaf ym Mai.

Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26. Pennir amseriad etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

27. Yn unol ag Adran 3 Deddf 2006 bydd etholiadau cyffredinol arferol yn cael eu cynnal ar y dydd Iau cyntaf ym Mai. Ond, mae Adran 4 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ganiatáu i'r etholiad gael ei gynnal hyd at fis yn gynharach neu fis yn ddiweddarach. Does dim cyfyngiad sy'n atal y cyfryw etholiad rhag cael ei gynnal ar benwythnos.

28. Dan Adran 25 Deddf 2006, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n pennu'r dyddiad ar gyfer etholiad cyffredinol anarferol. Gall hwn fod ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.

[6] Adlewyrchir hyn yn y darpariaethau dan adran 32 Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

29. Dan Adran 10 Deddf 2006, pennir dyddiad isetholiad gan Swyddog Llywyddol y Cynulliad. Gall hwn hefyd fod ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.

Etholiadau Senedd Ewrop

30. Gosodir amseriad etholiadau Senedd Ewrop drwy gytundeb unfryd yr holl aelod-wladwriaethau, ac mae'n cwmpasu cyfnod pedwar diwrnod o ddydd Iau i ddydd Sul er mwyn cynnwys yr arfer ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r dull hyblyg hwn ar draws Ewrop yn caniatáu i'r DU bleidleisio ar ddydd Iau a gwledydd eraill ar ddiwrnodau eraill, er bod hynny ar gyfer yr un etholiad. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 4 Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 yr hawl i bennu'r dyddiad yn unol â gorchymyn. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol osod yr un dyddiad ar gyfer yr etholiad ar benwythnos dan ei bwerau presennol. Ond, byddai'n rhaid diwygio'r rheolau ar gyfer cynnal Etholiadau Senedd Ewrop i ganiatáu i bleidleisio ddigwydd ar benwythnosau[7].

Cysondeb ar draws y Deyrnas Unedig

31. Byddai symud etholiadau cyffredinol seneddol neu etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr yn golygu y byddai etholiadau lleol yn cael eu cynnal ar ddiwrnodau gwahanol yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig[8].

32. Felly, bydd angen ystyried hefyd a yw'n briodol symud isetholiadau Seneddol, Lleol ac Ewropeaidd i'r penwythnos.

Profiad mewn gwledydd eraill

33. Fel yn y Deyrnas Unedig, cynhelir etholiadau cenedlaethol ar ddiwrnod gwaith yn ystod yr wythnos yng Nghanada, yr Unol Daleithiau, Denmarc, Iwerddon a'r Iseldiroedd. Ond mae'r mwyafrif helaeth o wledydd Ewropeaidd eraill yn cynnal etholiadau ar y penwythnos neu ar ŵyl gyhoeddus. Ar gyfer y gwledydd Ewropeaidd lle cynhelir etholiadau ar y penwythnos, yr hoff ddiwrnod yw dydd Sul. Dengys y tabl canlynol ddiwrnodau etholiadau mewn nifer o wledydd eraill:

[7] Byddai'n rhaid diwygio'r rheolau yn Atodlen 1 Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 (S.I 2004/293) ynghyd â'r rheoliadau ategol, Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Gogledd Iwerddon) 2004 (S.I 2004/1267).

[8] Ar y sail na fydd "Diwrnod Etholiadau" yn cael ei symud i'r penwythnos ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod yr wythnos waith		Ar benwythnos	
Dydd Llun	Canada	**Dydd Sadwrn a dydd Sul**	Y Swistir
Dydd Mawrth	UDA a Denmarc	**Dydd Sadwrn**	Awstralia a Seland Newydd
Dydd Mercher	Yr Iseldiroedd	**Dydd Sul**	Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, yr Eidal, Sbaen a Sweden
Dydd Iau	Y DU ac Iwerddon		

Goblygiadau pleidleisio ar y penwythnos

34. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai symud etholiadau i'r penwythnos yn golygu cryn newid. Mae'r rhesymau posibl dros newid, materion ac atebion posibl yn cael eu nodi isod:

Rhesymau posibl dros newid

Hwylustod

35. Mae wedi'i honni y byddai symud y diwrnod pleidleisio i benwythnos yn fwy cyfleus i'r boblogaeth yn gyffredinol, ac efallai y bydd yn arwain at fwy o bobl yn pleidleisio. Yn benodol, o wybod bod y rhan fwyaf o bobl yn gweithio yn ystod yr wythnos[9], gyda llawer yn ceisio cael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau teulu a gofal plant a gweithio'n amser llawn neu'n rhan amser, efallai nad yw dydd Iau yn ddiwrnod cyfleus ar gyfer pleidleisio. Gall hyn fod yn arbennig o wir yng nghyswllt merched sy'n dal y prif ddarparwyr gofal plant[10].

36. Yn ogystal, mae'r tueddiadau o ran patrymau gweithio, gan gynnwys yr oriau a weithir, gwaith shifft a phellteroedd teithio hir i'r gwaith ac adref i gyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar bleidleiswyr a gall fod yn rhwystr i bleidleisio yn ystod yr wythnos.

37. Mae'r rhain a ffactorau eraill wedi arwain at bryderon nad yw'r broses etholiadol yn gydnaws â ffyrdd o fyw modern oherwydd gyda llawer o bobl, nid ydynt yn treulio llawer o amser neu ddim amser o gwbl yn ardal eu gorsaf bleidleisio yn ystod eu diwrnod gwaith.

[9] Mae ffigurau a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer Ebrill/Mehefin 2007 yn amcangyfrif bod 74.59% o'r rhai mewn gwaith yn gweithio yn ystod yr wythnos o'i gymharu â 18.73% ar y penwythnos (ddim yn gwybod am 6.68%). Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar feintiau sampl bach ac felly mae rhywfaint o ansicrwydd yn eu cylch.

[10] Mae ffigurau a gasglwyd gan ONS ar gyfer Ebrill/Mehefin 2007 yn amcangyfrif bod 94.93% o ddarparwyr gofal plant yn ferched o'i gymharu â 5.07% sy'n ddynion (amcangyfrifon yn seiliedig ar feintiau sampl bach ac felly mae rhywfaint o ansicrwydd yn eu cylch).

38. I'r gwrthwyneb, mae wedi'i honni y byddai symud etholiadau i benwythnosau yn arwain at rwystrau gwahanol sy'n gysylltiedig â ffactorau ffordd o fyw. Yn aml, nid oes gan bobl drefn benodol ar benwythnosau a gallai fod yn well ganddynt dreulio'u hamser yn gwneud gweithgarwch hamdden neu fynd am dro o'r cartref. Efallai hefyd y byddai problemau penodol i unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu nad ydynt o bosibl yn cael cefnogaeth ar y penwythnos.

Lefelau'r ganran sy'n pleidleisio

39. Un ddadl a gyflwynir o blaid symud i bleidleisio ar benwythnos yw y gallai gael effaith gadarnhaol ar y ganran sy'n pleidleisio. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i gefnogi hyn, ond mae'r darlun yn gymysg. Yn gyffredinol, mewn gwledydd sy'n cynnal etholiadau ar ddydd Sul, mae'r ganran sy'n pleidleisio 6% yn uwch na'r gwledydd sy'n pleidleisio yn ystod yr wythnos[11]. Ond, yn ei lyfr ar y ganran o etholwyr sy'n pleidleisio[12], dywed yr Athro Mark N Franklin bellach nad yw'r ganran sy'n pleidleisio yn y gwledydd sydd wedi mabwysiadu pleidleisio ar y penwythnos er 1948 yn ymddangos fel petai wedi codi o ganlyniad i hynny a does dim tystiolaeth ddibynadwy ar gael fod pleidleisio ar y penwythnos yn ateb effeithiol i'r ganran isel sy'n pleidleisio.

40. Nid yw'n glir ai'r rheswm dros y ganran uwch sy'n pleidleisio yw'r ffaith bod etholiadau'n cael eu cynnal ar y penwythnos yn y gwledydd hynny; nid yw'n glir ychwaith a yw pleidleisio ar y penwythnos wedi cyfrannu at y diwylliant pleidleisio mewn gwledydd penodol.

41. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol mewn adroddiad ar ymgysylltu â phleidleiswyr a phobl ifanc fod pleidleisio ar y penwythnos yn un o'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio i fynd i'r afael â'r broblem o beidio â phleidleisio.[13]

Materion penodol

Daliadau ac ymlyniad crefyddol

42. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd sy'n cynnal etholiadau ar benwythnosau'n gwneud hynny ar ddydd Sul. Ond mae dydd Sadwrn a dydd Sul yn ddiwrnodau o ymlyniad crefyddol i bobl yn y DU a hefyd ar draws Ewrop. Felly, gall newid i bleidleisio ar y naill ddiwrnod neu'r llall beri problemau i rai pobl ar sail ffydd.

[11] Mark Franklin yn Electoral Participation in Comparing Democracies: Elections and Voting in Global Perspective, gol. Laurence Leduc, Richard Niemi a Pippa Norris. Thousand Oaks CA: Sage, 214-233, 1996.

[12] Voter Turnout and the Dynamics of Electoral Competition in Established Democracies since 1945, Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2004.

[13] Y Comisiwn Etholiadol, Voter Engagement and Young People., Gorffennaf 2002.

43. Un opsiwn y gellir ei ystyried er mwyn datrys gwrthwynebiadau o'r fath yw cynnal etholiadau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Yn ystod dadl Tŷ'r Cyffredin ar Fesur Cynrychiolaeth y Bobl ar 30 Tachwedd 1999 dywedodd Jack Straw, yr Ysgrifennydd Cartref bryd hynny, petai pleidleisio ar y penwythnos yn dod yn rhan o'r trefniadau cenedlaethol yna fe fyddai'n rhaid sicrhau bod hynny'n digwydd ar y ddau ddiwrnod er mwyn bodloni anghenion Cristnogion ac Iddewon[14]. Byddai goblygiadau cost i bleidleisio ar fwy nag un diwrnod.

Adnoddau

44. Mae symud i bleidleisio ar y penwythnos yn debygol o gyflwyno her weinyddol a her o ran adnoddau wrth gyflwyno gwasanaethau mewn modd diogel a chost-effeithiol. Ond, gallai roi'r cyfle i weinyddwyr etholiadol addasu gwasanaethau i wneud iawn am unrhyw broblemau gyda logisteg, dyrannu staff neu ddefnyddio gweithdrefnau. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i gael barn gweinyddwyr ac eraill am y materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n gysylltiedig â phleidleisio ar y penwythnos. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn croesawu barn ynghylch i ba raddau y byddai materion gwahanol i'w hystyried ar gyfer etholiadau a gynhelir naill ai ar ddydd Sadwrn neu ar ddydd Sul, neu etholiadau a fyddai'n cael eu cynnal dros benwythnos lawn.

45. Dyma rai o'r materion posibl yng nghyswllt adnoddau ar gyfer gweinyddwyr ac eraill:

- Recriwtio staff pleidleisio, yn y gorsafoedd pleidleisio eu hunain a hefyd yn y cyfrif, dros y penwythnos pan mae gan bobl ymrwymiadau hamdden a chymdeithasol allanol yn aml neu efallai nad ydynt am weithio'r adeg honno.
- Yn aml y rhai sy'n gweithio ar ddiwrnod pleidleisio yw staff awdurdodau lleol sy'n cael eu drafftio i helpu am y diwrnod. Byddai'n rhaid gosod y budd posibl o staff nad ydynt yn colli diwrnod gwaith ar ddydd Iau yn erbyn y gost o'u cyflogi ar y penwythnos – efallai'n talu goramser neu fonysau eraill iddynt er mwyn eu cadw ar gyfer dyletswyddau Diwrnod Etholiad.
- Mater arall yw a fyddai pobl yn fodlon gweithio am ddiwrnod hir ac mewn cyfrif hir ar ddydd Sadwrn a/neu ddydd Sul. Petai'r pleidleisio'n digwydd dros ddau ddiwrnod, efallai y byddai achos dros ystyried lleihau'r oriau pleidleisio o'r 7am i 10pm presennol.
- Ar hyn o bryd mae'r Post Brenhinol yn archwilio'u swyddfeydd didoli am bleidleisiau drwy'r post i sicrhau nad oes dim yn cael eu methu cyn y bydd y pleidleisio'n dod i ben. Os cynhelir etholiadau ar benwythnosau, bydd hyn yn peri problemau i'r archwilio hwn.

[14] *Official Report, House of Commons*, 30 Tachwedd 1999, Cyf 340, Colofn 172.

46. Mae goblygiadau cost ynghlwm wrth bleidleisio ar y penwythnos i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantau hefyd. **Hoffai'r Llywodraeth glywed barn pleidiau gwleidyddol am y mater hwn.**

47. Cost etholiad cyffredinol yn y DU yw oddeutu £90 miliwn. Os symudir etholiadau (Cyffredinol, Lleol ac Ewropeaidd) i'r penwythnos gall y ffigur hwn godi. Bydd y Llywodraeth yn cynnal asesiad effaith i gael rhagor o dystiolaeth am y materion cost ac adnoddau a amlinellir ym mharagraffau 42-45.

Lleoliadau gorsafoedd pleidleisio

48. Byddai pleidleisio ar y penwythnos yn codi cwestiynau ynghylch a fydd lleoliadau pleidleisio ar gael ac a fyddant yn hwylus. Yn aml, defnyddir neuaddau eglwys ar gyfer pleidleisio ac maent yn llai tebygol o fod ar gael ar y penwythnos, yn arbennig ar ddydd Sul. Gall dod o hyd i leoliadau eraill addas fod yn broblem i rai awdurdodau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ond, efallai y byddai'n haws defnyddio adeiladau ysgol ar y penwythnos na fydd yn tarfu ar yr amserlen ddysgu. Efallai y bydd costau ynghlwm o gael gofalwr i agor yr ysgol a goruchwylio'r defnydd o'r ysgol ar y penwythnos ond bychan iawn fyddai'r effaith ar galendr yr ysgol.

49. Gall llai o drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ar y penwythnos, yn enwedig ar ddydd Sul, effeithio ar allu rhai pleidleiswyr i gyrraedd gorsaf bleidleisio.

Diogelwch

50. Pan fydd pleidleisio'n digwydd dros fwy nag un diwrnod, rhaid i'r gorsafoedd pleidleisio a'r defnyddiau ynddynt gael eu cadw'n ddiogel rhwng diwedd y pleidleisio ar un diwrnod a dechrau'r pleidleisio ar y diwrnod wedyn. Gall hyn arwain at gostau ychwanegol oherwydd mae'n bosibl na fydd mannau dros dro yn addas ar gyfer diogelu defnyddiau etholiad dros nos, ac felly, efallai y bydd angen rhagor o fesurau diogelwch.

Arolygon barn wrth i bobl adael gorsafoedd pleidleisio

51. Ar hyn o bryd, y mae gwaharddiad ar gyhoeddi arolygon rhwng dechrau'r pleidleisio tan ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben. Bydd angen ystyried yn ofalus y goblygiadau ar gyfer arolygon barn wrth i bobl adael gorsafoedd pleidleisio ac adroddiadau gan y cyfryngau petai'r pleidleisio'n digwydd dros ddau ddiwrnod ar y penwythnos, gan y gall canlyniadau'r cyfryw arolygon ac adroddiadau newyddion gwleidyddol sy'n ymddangos "hanner ffordd" ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.

Amseriad etholiadau

52. Petai pleidleisio ar benwythnos yn cael ei gyflwyno ar gyfer rhai neu'r holl ddiwrnodau etholiad, yna byddai'n rhaid ystyried pa benwythnos sydd fwyaf priodol. Ar hyn o bryd, cynhelir pob etholiad ac eithrio etholiadau ar gyfer senedd y DU a senedd Ewrop ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai[15]. Petai'r pleidleisio ar benwythnos yn digwydd, dyweder ar y penwythnos cyntaf ym Mai, byddai'n disgyn ar benwythnos gŵyl y banc Calan Mai yn flynyddol bron. Felly, efallai y byddai'n well symud amser arferol yr etholiadau hyn i'r ail benwythnos ym mis Mai, a fyddai'n cadw'r elfen o etholiadau lleol yn digwydd ar y dyddiad cynharaf posibl ym mis Mai gan osgoi gwyliau banc. Ond, efallai fod penwythnosau eraill a allai fod yn fwy priodol. **Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn am hyn.**

Atebion Posibl

53. Ond, mae ffyrdd eraill posibl o wneud pleidleisio'n hwylus i unigolion nad ydynt yn awyddus i fynychu gorsaf bleidleisio neu bleidleisio ar ddiwrnod penodol. Yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, ceir darpariaeth i alluogi pob etholwr ym Mhrydain Fawr (heb gynnwys Gogledd Iwerddon) i wneud cais i bleidleisio drwy'r post ymhob etholiad (lleol neu seneddol), am gyfnod amhenodol neu mewn un etholiad penodol yn unig.

54. Felly, mae modd eisoes i'r rhai a fyddai'n well ganddynt beidio â phleidleisio ar ddiwrnod penodol i wneud hynny cyn diwrnod yr etholiad drwy ddefnyddio pleidlais drwy'r post. Dulliau posibl eraill ar gyfer darparu'r cyfleuster hwn yw pleidleisio o bell dros y rhyngrwyd/ffôn a phleidleisio "ymlaen llaw" yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Efallai hefyd y gall y dulliau hyn fod yn werthfawr fel ffordd o wneud pleidleisio'n fwy cyfleus. Ystyrir y rhain yn fwy manwl isod.

Pleidleisio ymlaen llaw mewn gorsafoedd pleidleisio

55. Fel rhan o raglen y Llywodraeth o dreialu dulliau pleidleisio arloesol, mae 20 awdurdod lleol wedi treialu pleidleisio ymlaen llaw mewn gorsafoedd pleidleisio er 2000[16]. Mae tystiolaeth o'r cynlluniau peilot hyn wedi dangos nad yw'r gallu i bleidleisio ymlaen llaw yn gwneud fawr ddim i wella'r ganran sy'n pleidleisio. Defnyddiwyd y system yn achos 2-3% o'r pleidleisiau a fwriwyd. Ond, cynhaliwyd y treialon mewn cyd-destun lle roedd Diwrnod yr Etholiad yn ystod yr wythnos. Byddai goblygiadau o ran adnoddau ynghlwm wrth bleidleisio ymlaen llaw gan y byddai'n rhaid cynnal gorsaf bleidleisio ddiogel am gyfnod o amser cyn y prif ddiwrnod pleidleisio.

[15] Adran 37 Deddf Cynrychiolaeth Bobl 1983 ac eraill.

[16] *Treialodd yr awdurdodau lleol canlynol y broses pleidleisio ymlaen llaw yn eu hetholiadau lleol yn 2007: Bedford, Broxbourne, Gateshead, Sheffield a Sunderland. Mae cynlluniau peilot pleidleisio ymlaen llaw wedi cael eu cynnal hefyd gan ddefnyddio gorsafoedd pleidleisio symudol.*

Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn ynghylch a ddylid darparu ar gyfer cynnal mwy o bleidleisio ymlaen llaw ochr yn ochr â phleidleisio ar benwythnos neu'n ychwanegol at hynny.

Pleidleisio electronig o bell

56. Yn y Papur Gwyrdd *Governance of Britain*, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymchwilio i fanteision posibl pleidleisio electronig o bell (gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r ffôn)[17]. Gallai pleidleisio o bell o'r fath ddigwydd naill ai cyn neu yn ystod y diwrnod pleidleisio.

57. Er 2000 mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol i dreialu prosesau arloesol megis pleidleisio electronig dros y rhyngrwyd. Mae hyn wedi helpu i brofi atebion posibl i helpu pleidleiswyr na allant fynychu gorsaf bleidleisio'n bersonol ar Ddiwrnod Etholiad[18].

Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn ynghylch a fyddai pleidleisio electronig o bell, naill ai ar ddiwrnod y pleidleisio neu cyn hynny, yn ddulliau eraill derbyniol ar gyfer y rhai y byddai pleidleisio ar benwythnos yn peri problemau am resymau crefyddol neu resymau eraill.

Manteision ac anfanteision tybiedig pleidleisio'n bersonol

58. Dyma rai o fanteision ac anfanteision tybiedig pleidleisio'n bersonol:

Manteision tybiedig

- Mae'r pleidleiswyr yn gyfarwydd â'r broses o bleidleisio'n bersonol yn eu gorsafoedd pleidleisio lleol;
- Mae'n weithred weledol o gyfraniad democrataidd;
- Mae cyfrinachedd y bleidlais yn cael ei sicrhau'n amlwg, gyda'r pleidleisio'n digwydd mewn bwth wedi'i sgrinio; a
- Mae'r pleidleiswyr yn gosod eu pleidlais yn syth yn y blwch a gallant fod yn sicr y rhoddir cyfrif am eu pleidlais.

Anfanteision tybiedig

- Gall yr orsaf bleidleisio fod cryn bellter o gartref rhai pobl ac yn anodd cyrraedd ati am nifer o resymau. Gall y rhain gynnwys:

[17] Mae'r Llywodraeth newydd ddechrau edrych ar fanteision ac ymarferoldeb e-bleidleisio o bell. Bydd y gwaith yn cynnwys rhoi sylw i hygyrchedd, costau, diogelwch a defnyddioldeb.

[18] Yn 2007, cynhaliwyd treialon e-bleidleisio mewn etholiadau lleol yn yr ardaloedd canlynol: Rushmoor, Sheffield, yr Amwythig ac Atcham, De Swydd Buckingham a Swindon.

  - Diffyg trafnidiaeth i'r orsaf bleidleisio (yn arbennig mewn ardaloedd gwledig) neu brinder cyfleusterau parcio;
  - Adeiladau'r gorsafoedd pleidleisio ddim yn hwylus i bob unigolyn.
- Mae ffyrdd o fyw wedi newid yn sylweddol yn y degawdau diwethaf gyda phobl yn fwy tebygol o fod yn absennol o'u cartref am nifer o resymau, gan gynnwys gwaith a gwyliau;
- Dim ond mewn gorsaf bleidleisio yn y dosbarth lle maent yn byw y gall pleidleiswyr bleidleisio;
- Gall dyletswyddau gwaith gan gynnwys amseroedd teithio i'r gwaith ac adref olygu na all pleidleisiwr gyrraedd yr orsaf bleidleisio;
- Gall cyfrifoldebau teulu neu gyfrifoldebau gofal olygu na all pleidleisiwr gyrraedd yr orsaf bleidleisio;
- Efallai y bydd yn rhaid i ysgolion gau am y diwrnod er mwyn i'r cyfleusterau gael eu defnyddio ar gyfer pleidleisio. Gall goblygiadau hyn fod yn fwy i rieni/gwarcheidwaid sydd efallai'n gorfod cymryd amser o'r gwaith i ofalu am eu plant.

Ystyriaethau eraill

59. Er bod y papur hwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau ffisegol i bleidleisio, mae'n amlwg fod nifer o resymau eraill am y gostyngiad yn y ganran sy'n pleidleisio. Mae'r rhain yn cynnwys patrymau gwahanol o fynegiant gwleidyddol – er enghraifft, dengys tystiolaeth fod llai o uniaethu â ffurfiau cyfun o fynegiant gwleidyddol megis pleidiau gwleidyddol a phobl yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol.

60. Mae'r Llywodraeth yn gobeithio defnyddio'r Uwchgynhadledd Dinasyddion ar fanteision symud Diwrnod Etholiadau i archwilio sut y mae rhai o'r materion hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl i bleidleisio neu beidio a'r cysyniad o bleidleisio fel dyletswydd ddinesig.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sy'n deillio o'r papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1
Ydych chi o'r farn y dylai diwrnod pleidleisio fod: ■ yn ystod yr wythnos, ■ ar ddydd Sadwrn, ■ ar ddydd Sul, neu ■ ddigwydd dros ddydd Sadwrn a dydd Sul? Dywedwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 2
Ar bwy y byddai newid y diwrnod pleidleisio i benwythnos yn effeithio a sut?

Cwestiwn 3
Ydych chi o'r farn y dylid gwneud mwy o ddefnydd o bleidleisio ymlaen llaw mewn gorsafoedd pleidleisio ochr yn ochr â phleidleisio ar benwythnos? Esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4
Ydych chi o'r farn y dylid gwneud mwy o ddefnydd o bleidleisio o bell (naill ai drwy bleidleisio traddodiadol drwy'r post neu drwy ddull electronig) ochr yn ochr â phleidleisio ar benwythnos? A ddylid ystyried trefniadau o'r fath hyd yn oed pe na fyddai'r diwrnod pleidleisio'n cael ei symud i'r penwythnos? Esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5
Beth, yn eich barn chi, yw manteision ac anfanteision e-bleidleisio o bell?

Cwestiwn 6
A ddylai'r Llywodraeth dreialu pleidleisio ar benwythnos cyn cyflwyno'r system ar draws y DU?

Cwestiwn 7
Pa faterion eraill all godi petai'r diwrnod pleidleisio'n cael ei symud i'r penwythnos? Beth yw'r ystyriaethau o ran: • adnoddau? • lleoliadau'r gorsafoedd pleidleisio? • diogelwch? • gweinyddu'r etholiad?

Cwestiwn 8
Os cyflwynir pleidleisio ar benwythnos ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, ydych chi'n cytuno y dylid symud yr amser arferol ar gyfer cynnal yr etholiadau hyn o'r dydd Iau cyntaf ym mis Mai i'r ail benwythnos ym mis Mai? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa benwythnos, yn eich barn chi, fyddai fwyaf addas ar gyfer cynnal yr etholiadau hyn a pham.

Cwestiwn 9
Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rwystrau sy'n atal unigolion rhag pleidleisio? Beth yw'r materion a sut y gellir eu goresgyn?

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r holl gyfraniadau a byddant yn cael eu defnyddio fel sail i ystyriaethau'r uwchgynhadledd dinasyddion.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu yn rhinwedd pa swydd yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	☐ (ticiwch y blwch os gwelwch yn dda)
Y cyfeiriad y dylid anfon y llythyr cydnabod iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp ynghyd â chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn 26 Medi 2008 os gwelwch yn dda at:

Janice Parker
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Yr Adran Etholiadau a Democratiaeth
Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Ffôn: 020 7210 8224
Ffacs: 020 7210 2659
E-bost: weekendvotingconsultation@justice.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae modd cael copi ar-lein ohono hefyd yn: www.justice.gov.uk/index.htm.

Mae fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy wneud cais i'r sawl a enwir uchod.

Cyhoeddi ymatebion

Fel arfer, cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn cyn pen tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Bydd y papur ymatebion ar gael ar-lein yn: www.justice.gov.uk/index.htm.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnwn i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (yn fwyaf penodol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os byddai'n well gennych inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â Chod Ymarfer statudol sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. O ganlyniad, byddai'n fuddiol pe gallech egluro wrthym pam eich bod yn teimlo bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn ofalus, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Meini prawf Ymgynghori

Mae'r chwe maen prawf ar gyfer ymgynghori fel a ganlyn:

1. Ymgynghori'n eang trwy gydol y broses, gan roi o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2. Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, pwy allai gael eu heffeithio ganddynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer derbyn ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.

4. Rhoi adborth ar yr ymatebion a dderbyniwyd, a sut y bu i'r broses ymgynghori ddylanwadu ar y polisi.

5. Monitro pa mor effeithiol yw eich adran gydag ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd dynodedig ar gyfer yr ymgynghoriad.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn yr arferion gorau ar reoleiddio gwell, gan gynnwys cyflawni Asesiad Effaith lle bo hynny'n briodol.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn yng nghorff pob dogfen ymgynghori.

Atodiad A: Asesiad Effaith

Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau		
Adran / Asiantaeth: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	**Teitl:** Asesiad o Effaith Papur Ymgynghori Pleidleisio ar y Penwythnos	
Cam: Ymgynghoriad	**Fersiwn:** 4	**Dyddiad:** 9 Ebrill 2008
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Ymgynghoriad		

Ar gael i'w weld neu i'w lawrlwytho yn:
www.justice.gov.uk

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Janice Parker **Rhif Ffôn:** 020 7210 8224

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam fod angen i'r llywodraeth ymyrryd?
Mae'r llywodraeth yn awyddus i annog mwy o gyfranogiad ac ymgysylltiad gan bleidleiswyr. Mae pleidleisio wrth wraidd y broses ddemocrataidd: a rhan allweddol o'n democratiaeth yw ystyried sut y gallwn nodi a chwalu'r rhwystrau i ymarfer yr hawl hwnnw. Mae'r llywodraeth yn gwahodd barn ynghylch a ellid gwneud y broses bleidleisio'n fwy cyfleus drwy newid amseriad y Diwrnod Pleidleisio ei hun, ac a oes camau eraill y dylid eu cymryd ochr yn ochr â hyn - er enghraifft, defnyddio mwy o bleidleisio electronig o bell neu bleidleisio ymlaen llaw.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau bwriedig:
Amcanion y Llywodraeth yn archwilio manteision newid amseriad Diwrnod Etholiadau yw:

- Gwneud y proses bleidleisio'n hwylus i bawb cymwys, gan adlewyrchu anghenion ein cymdeithas amrywiol a symudol;
- Sicrhau bod y broses bleidleisio'n hwylus ac yn ymatebol i anghenion pobl drwy ddarparu sawl dull o bleidleisio, gan ddarparu dewisiadau ar sut i gyfrannu at y broses bleidleisio.

Y canlyniad bwriedig yw hybu rhagor o gyfranogiad a pherchnogaeth o'r broses etholiadol.

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Dylech gyfiawnhau unrhyw opsiwn yr ydych o'i blaid.

(1) Parhau i gynnal etholiadau ar ddydd Iau a pheidio ag ystyried symud i benwythnos

(2) Ystyried yr achos dros symud y broses o bleidleisio mewn etholiadau i'r penwythnos a'r ffordd orau o wneud hyn.

Rydym wedi dewis yr opsiwn olaf oherwydd:

(A) Yn y Papur Gwyrdd Governance of Britain addawodd y Llywodraeth ymgynghori ar symud diwrnod etholiadau i'r penwythnos fel rhan o'i rhaglen ehangach ar gyfer adfywio'r berthynas rhwng y llywodraeth a'r dinesydd.

(B) Mae'n werthfawr archwilio'r rhwystrau i bleidleisio ac a oes awydd ymysg y cyhoedd i symud Diwrnod Etholiadau i'r penwythnos, a manteision posibl hynny.

Pryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i sefydlu'r union gostau a'r manteision, ac i sefydlu a gyflawnir yr effeithiau a ddymunir? Does dim dyddiad gweithredu ar gyfer y polisi hwn eto ond bydd adolygiad gweithredu'n cael ei gynnal yn dilyn yr ymgynghori a gall y Senedd drafod yr amseriad ochr yn ochr ag unrhyw gynigion polisi a fydd yn deillio o hyn.

Llofnod Cymeradwyaeth y Gweinidog Ar gyfer Asesiadau Effaith adeg y cam ymgynghori:

Yr wyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac yr wyf yn fodlon, yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli barn resymol am gostau, manteision ac effaith tebygol y prif opsiynau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol: Michael Wills

Dyddiad: 17 Mehefin 2008

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi:	Disgrifiad:

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL

Untro (Trosglwyddo) **Blyn**

£ Dim

Cost Flynyddol ar Gyfartaledd
(heb gynnwys costau untro)

£38m i £58m

Disgrifiad o'r costau allweddol ar ffurf arian, a'u maint, yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli gweithrediad etholiadau

Cyfanswm Cost (GP) **£38m i £58m**

Costau allweddol eraill nad ydynt ar ffurf arian yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
A oes unrhyw gostau y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Byddem yn ddiolchgar cael sylwadau gan ymgyngoreion.

BUDDIANNAU

COSTAU BLYNYDDOL

Untro **Blyn**

£ Dim

Cost Flynyddol ar Gyfartaledd
(heb gynnwys costau untro)

£ Dim

Disgrifiad o'r buddiannau allweddol ar ffurf arian, a'u maint, yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Er nad oes buddiannau blynyddol yn cael eu pennu ar hyn o bryd, mae hwn yn ymwneud ar hyn o bryd â'r buddiannau o ran gweinyddu etholiadau.

Ond, gall pleidleisio ar y penwythnos ddarparu buddiannau eraill a byddem yn falch o gael barn am y buddiannau ariannol ac anariannol posibl ar wahân i hyn.

Cyfanswm Budd (GP) **£ Dim**

Buddiannau eraill nad ydynt ar ffurf arian yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Mwy o gyfranogiad yn y broses etholiadol a mwy o ymgysylltiad â'r broses wleidyddol sy'n effeithio ar bob unigolyn sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau yn y DU.

Tybiaethau/Ystyriaethau Sensitif/Risgiau Allweddol
Awdurdodau lleol sy'n ysgwyddo'r gost o gynnal etholiadau lleol. Telir am etholiadau cyffredinol ac etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop gan Lywodraeth ganol. Weithiau, cyfunir etholiadau cenedlaethol a lleol. Efallai y bydd angen i swyddogion canlyniadau ddarparu cyfleusterau pleidleisio ymlaen llaw lle bo hynny'n ymarferol er mwyn darparu ar gyfer pleidleiswyr sydd am bleidleisio mewn ffordd draddodiadol (h.y. heb ddefnyddio pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy) ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul oherwydd eu daliadau crefyddol. Strategaeth ategol arall o bosib fydd datblygu system ddiogel o bleidleisio electronig o bell. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar gostau Etholiad Cyffredinol ac yn cynrychioli'r costau ychwanegol fesul etholiad.

Sail Pris Blwyddyn	**Cyfnod Amser Blyn**	**Ystod y Budd Net** (GPN) **£ DIM**	**BUDD NET** (Amcangyfrif gorau'r GPN) **£ DIM**

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/opsiwn?			Y DU i gyd	
Ar ba ddyddiad y caiff y polisi ei weithredu?			Ddim yn gwybod eto	
Pa gorff (gyrff) fydd yn gorfodi'r polisi?			Amh	
Beth yw cyfanswm blynyddol y gost o orfodi i'r cyrff hyn?			£ Amh	
A ydy'r trefniadau gorfodi yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Amh	
A fydd y gweithredu yn rhagori ar ofynion sylfaenol yr UE?			Amh	
Beth yw gwerth y mesur gwrthbwyso arfaethedig y flwyddyn?			£ Dim	
Beth yw gwerth y newid mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr?			£ Dim	
A fydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth?			Na fydd	
Y gost flynyddol (£-£) i bob corff (heb gynnwys costau untro)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r cyrff hyn wedi eu heithrio?	Amh	Amh	Amh	Amh

Effaith ar Brisiau Sylfaen y Beichiau Gweinyddol (prisiau 2005) (Cynnydd – Gostyngiad)

Cynnydd o £**38m i £58m** Gostyngiad o £ Dim **Effaith Net £38m i £58m**

Allwedd:	**Costau a buddiannau blynyddol: Prisiau Cyson**	**Gwerth Presennol (Net)**

Sail Tystiolaeth (ar gyfer y taflenni crynodeb)

Y Cefndir

Roedd '*The Governance of Britain*' yn cyhoeddi bwriad y Llywodraeth i greu perthynas newydd rhwng y llywodraeth a'r dinesydd ac yn cyflwyno nifer o gynigion i helpu i gyflawni hyn.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ystyried rhagor o fesurau i wneud pleidleisio'n fwy cyfleus ac felly mae'n bwriadu ystyried yr achos dros symud etholiadau i'r penwythnos ar gyfer etholiadau cyffredinol ac etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop ac etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae pleidleisio wrth wraidd y broses ddemocrataidd: a rhan allweddol o'n democratiaeth yw ystyried sut y gallwn nodi a chwalu'r rhwystrau i ymarfer yr hawl hwnnw. Mae'r papur ymgynghori'n gwahodd barn ynghylch a ellid gwneud y broses bleidleisio'n fwy cyfleus drwy newid amseriad y Diwrnod Pleidleisio ei hun, ac a oes camau eraill y dylid eu cymryd ochr yn ochr â hyn - er enghraifft, defnyddio mwy o bleidleisio electronig o bell neu bleidleisio ymlaen llaw.

Mae'r Llywodraeth yn cadw meddwl agored am y materion hyn ac mae'n awyddus i gael barn y cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb penodol yn y pwnc, am symud etholiadau i'r penwythnos, proses a fydd yn cael ei chefnogi drwy ddefnyddio pleidleisio ymlaen llaw a phleidleisio electronig o bell. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori'n eang â'r etholwyr, y gweinyddiaethau datganoledig, y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau lleol, gweinyddwyr etholiadol, grwpiau Ffydd, grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb.

Mae'n hanfodol fod dinasyddion sydd â hawl i bleidleisio yn gallu gwneud hynny ac nad ydynt yn cael eu hatal rhag pleidleisio oherwydd ymrwymiadau teulu, gwaith neu eraill. Mae'r broses wleidyddol yn hollbwysig i bawb ac mae penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a llywodraeth yn effeithio ar bawb. Yr amcan yw sicrhau bod y prosesau pleidleisio'n hwylus, yn gyfleus ac yn hawdd eu defnyddio ond heb amharu ar ddiogelwch y bleidlais.

Manteision:

- Gwneud y broses etholiadol yn fwy cyfleus ac yn fwy ymatebol i anghenion cyffredinol yr etholwyr drwy ddarparu sawl dull o bleidleisio;
- Grymuso dinasyddion drwy ddarparu trefniadau etholiadol sy'n cael gwared â'r rhwystrau i grwpiau cymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn llai tebygol o bleidleisio. Rhaid i drefniadau etholiadol ystyried gofynion y gymuned gyfan, beth bynnag yw eu hoed, ethnigrwydd, gallu, patrwm gwaith, amgylchiadau domestig, neu ffactorau perthnasol eraill;

- Trefniadau etholiadol sy'n cydnabod realiti'r bywyd modern. Mae'n ddyletswydd ar lywodraeth i sicrhau bod systemau etholiadol ar gael sy'n sicrhau bod pob dinesydd yn gallu cyfrannu – oni fydd llywodraethau'n ystyried y ddyletswydd hon o ddifrif, mae perygl y bydd hygrededd sefydliadau democrataidd yn cael eu tanseilio.

Costau a Risgiau

Mae pob etholiad yn golygu cost net i'r trethdalwr. Mae symud etholiadau i'r penwythnos, ymestyn etholiadau dros fwy nag un diwrnod, pleidleisio ymlaen llaw neu bleidleisio electronig o bell i gyd yn ychwanegu at y gost hon, a bydd angen cydbwyso'r gost hon â lefel y manteision i gymdeithas a gyflwynir drwy wella mynediad dinasyddion at systemau democrataidd.

Gall pleidleisio ar y penwythnos a'i strategaethau ategol osod pwysau ychwanegol ar ddiogelwch, swyddogion canlyniadau a staff etholiadau. Gall argaeledd gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau ar gyfer cyfrif fod yn broblem hefyd. Bydd angen ystyried y materion hyn wrth bennu pa mor ymarferol yw symud i bleidleisio ar y penwythnos.

Rhestr Wirio Profion Effaith Benodol

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich opsiynau polisi.

Dylech sicrhau bod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd wedi eu cynnwys yn y brif sail dystiolaeth; gellir rhoi canlyniadau eraill mewn atodiadau.

Y math o brawf a gynhaliwyd	*Canlyniadau yn y sail dystiolaeth?*	*Canlyniadau mewn atodiad?*
Asesiad o Gystadleuaeth	Na	Na
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Na	Na
Cymorth Cyfreithiol	Na	No
Datblygu Cynaliadwy	Na	Na
Asesiad Carbon	Na	Na
Prawf Amgylchedd Arall	Na	Na
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Na	Na
Cydraddoldeb Hil	Le	Na
Cydraddoldeb Anabledd	Le	Na
Cydraddoldeb Rhywiol	Le	Na
Hawliau Dynol	Le	Na
Prawfesur Polisïau Gwledig	Na	Na

Atodiad B: Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb - Sgrinio Cychwynnol

A. Pennu amcanion a chanlyniadau
2. Enw'r ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth sy'n cael ei asesu/ei hasesu: **Diwrnod Etholiadau: Pleidleisio ar y Penwythnos**
2a. Beth yw nod, amcan neu bwrpas y polisi, y ddeddfwriaeth neu'r gwasanaeth a phwy a fydd yn elwa ohono/ohoni? **Gwahodd barn ynghylch a ddylid gwneud pleidleisio'n fwy cyfleus drwy newid amseriad Diwrnod Etholiadau a hefyd cael barn ar ddefnyddio pleidleisio ymlaen llaw a phleidleisio o bell dros y rhyngrwyd a'r ffôn.**
2b. Beth yw'r canlyniadau arfaethedig? **Cael barn ynghylch a fyddai newid Diwrnod Etholiadau, a/neu'r mesurau eraill ar gyfer hwyluso rhagor ar y broses bleidleisio, yn ysgogi'r rhai nad ydynt yn pleidleisio i wneud hynny. Hefyd, cael barn ynghylch a fydd y manteision posibl yn drech na'r costau posibl yn sgil pleidleisio ar y penwythnos..**
3. A ydych yn rhannu cyfrifoldeb dros y ddeddfwriaeth hon, y polisi hwn neu'r gwasanaeth hwn ag un o Adrannau eraill y Llywodraeth neu â sefydliad arall (e.e. partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol). Os ydych, pwy sy'n ei ddiffinio a phwy sy'n ei roi ar waith? **Dim ar hyn o bryd**

4. Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol yng nghyswllt y ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth? Pa ganlyniadau y mae arnynt eu heisiau? A yw rhestr y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr yr holl grwpiau o bobl sy'n berthnasol/sydd â diddordeb? Os nad yw, pam?

Anelir yr ymgynghoriad at bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys y cyhoedd a'r rhai sydd â diddordeb penodol yn y broses etholiadol ac amseriad etholiadau, megis pleidiau gwleidyddol, awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol yn y DU. Fe'i hanelir hefyd at grwpiau crefyddol a'r sector gwirfoddol. Ymysg y grwpiau cydraddoldeb sy'n cael eu targedu y mae Operation Black Vote, mudiadau yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau a Help the Aged. Rydym yn awyddus i glywed yn uniongyrchol oddi wrth etholwyr ac rydym yn edrych ar ffyrdd o hwyluso hynny.

Ni fwriedir i'r rhestr fod yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysol a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn am y pwnc y mae'r papur ymgynghori yn ymdrin ag ef. Disgwyliwn amrywiaeth eang o ymatebion ac nid ydym wedi ceisio cynnig un farn neu'r llall yn y papur ymgynghori.

B. Dadansoddi'r dystiolaeth bresennol a chasglu data pellach

5. Rhestrwch y data a ddefnyddiwyd i hwyluso'r sgrinio cychwynnol ar y ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth. Er enghraifft, ystadegau, canlyniadau arolygon, dadansoddiadau o gwynion, dogfennau ymgynghori, polisïau tebyg o ffynonellau mewnol ac allanol a chan Adrannau eraill y Llywodraeth.

Byddwn yn defnyddio data gan ONS ar batrymau gweithio yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau a phatrymau teithio i'r gwaith a chyfrifoldebau gofal plant. Gobeithio y bydd yr ymatebion i'r papur ymgynghori yn darparu rhagor o dystiolaeth ar y materion hyn. Rydym hefyd yn astudio enghreifftiau o dramor o bleidleisio ar benwythnos.

6. A oes bylchau yn y wybodaeth sy'n galw am ragor o ymchwil neu ymgynghori, neu a allai alw am gasglu gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses monitro ac adolygu?

Oes. Yn y papur ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn gofyn yn benodol beth yw'r rhwystrau a'r materion sy'n atal unigolion rhag pleidleisio a sut y gellir goresgyn y rhain. Mae hefyd yn gofyn am farn ynghylch a fyddai pleidleisio electronig o bell, naill ai ar ddiwrnod y pleidleisio neu cyn hynny, yn ddulliau amgen derbyniol ar gyfer y rhai y byddai pleidleisio ar benwythnos yn peri problemau am resymau crefyddol neu resymau eraill a hefyd a ddylid darparu mwy o fynediad i bleidleisio ymlaen llaw mewn gorsafoedd pleidleisio ar ben pleidleisio ar y penwythnos.

C. Asesu effaith y ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth

7. A oes unrhyw dystiolaeth bod cyfraddau cyfranogi gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl yng nghyswllt y ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth (e.e. nid yw dynion yn defnyddio'r gwasanaethau sydd wedi'u darparu gan y llysoedd trais yn y cartref yn yr un modd ag y mae menywod)?

	Oes	Na	Ddim yn gwybod		Oes	Na	Ddim yn gwybod
Oedran	X			Grŵp Hil	X		
Cyfrifoldebau Gofalu	X			Crefydd neu Gred			X
Anabledd	X			Tueddfryd Rhywiol			X
Rhywedd	X						

Nodwch y dystiolaeth yr oeddech wedi seilio'r casgliad hwn arni:

Adroddiadau gan gyrff sy'n cynnwys y Comisiwn Etholiadol, SCOPE, Age Concern, Operation Black Vote. Mae adroddiadau gan y sefydliadau hyn ac eraill yn dangos mai ychydig sy'n pleidleisio ymysg rhai grwpiau lleiafrifol, yn enwedig yn y grŵp oedran 18-25 oed. Ceir tystiolaeth hefyd y gall unigolion ag anableddau gael trafferth pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Felly mae'r papur ymgynghori'n gofyn ar bwy y byddai newid y diwrnod pleidleisio i benwythnos yn effeithio a sut. Hefyd, mae'n ceisio canfod a ddylid gwneud mwy o ddefnydd o bleidleisio o bell (naill ai drwy bleidleisio traddodiadol drwy'r post neu drwy ddull electronig) ochr yn ochr â phleidleisio ar benwythnos neu a ddylid ystyried trefniadau o'r fath hyd yn oed pe na fyddai'r diwrnod pleidleisio'n cael ei symud i'r penwythnos.

8. A oes rhwystrau a allai gyfyngu ar fynediad at fanteision y ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth? Rhowch ystyriaeth i'r canlynol:

- A oes unrhyw yn cael ei gau allan rhag mwynhau manteision y polisi?
- A fydd gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill (http:/intranet.dda/alt.htm) neu ieithoedd eraill (e.e. Cymraeg)?
- A fydd pobl anabl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth?

	Oes	Na	Ddim yn gwybod		Oes	Na	Ddim yn gwybod
Oedran			X	Grŵp Hil			X
Cyfrifoldebau Gofalu			X	Crefydd neu Gred	X		
Anabledd			X	Tueddfryd Rhywiol			X
Rhywedd			X				

Nodwch beth yw'r rhwystrau posibl neu, os nad oes rhwystrau, nodwch y dystiolaeth yr oeddech wedi seilio'r casgliad hwn arni?

Mae yna rwystrau posibl nad ydynt wedi'u meintioli ar hyn o bryd, er enghraifft a yw daliadau crefyddol yn gofyn am weithgarwch penodol neu bresenoldeb mewn gwasanaethau crefyddol neu ddigwyddiadau eraill dros y penwythnos a fyddai'n effeithio ar allu unigolyn i bleidleisio. Felly, mae angen ymgynghori'n eang er mwyn pennu unrhyw fylchau y bydd angen rhoi sylw iddynt o bosibl. Mae'r papur ymgynghori, yn ychwanegol at y cwestiynau hynny y cyfeiriwyd atynt, eisoes yn ceisio canfod y canlynol:

A ddylai'r Llywodraeth dreialu pleidleisio ar benwythnos cyn cyflwyno'r system ar draws y DU?

Pa faterion eraill all godi petai'r diwrnod pleidleisio'n cael ei symud i'r penwythnos?

9. A oes unrhyw dystiolaeth bod gan wahanol grwpiau (neu'n debygol y bydd ganddynt) wahanol anghenion, profiadau, ystyriaethau a blaenoriaethau yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, polisi neu wasanaeth cyfredol neu arfaethedig? Er enghraifft, a oes unrhyw randdeiliaid cydraddoldeb (cyrff neu unigolion) wedi nodi y gallai (neu y byddai) y ddeddfwriaeth, polisi neu wasanaeth yn eu cau allan neu'n creu heriau penodol iddynt?

	Oes	Na	Ddim yn gwybod		Oes	Na	Ddim yn gwybod
Oedran	X			Grŵp Hil			X
Cyfrifoldebau Gofalu	X			Crefydd neu Gred	X		
Anabledd	X			Tueddfryd Rhywiol			X
Rhywedd	X						

Nodwch y dystiolaeth yr oeddech wedi seilio'r casgliad hwn arni:

Rhai materion yng nghyswllt deddfwriaeth bresennol a all fod yn atal pobl rhag pleidleisio yw ymrwymiadau gwaith, amseroedd teithio hir i'r gwaith, cyfrifoldebau teulu neu gyfrifoldebau gofalu a gorsafoedd pleidleisio yn anhwylus i bobl ag anableddau. Mae gan y ffaith bod ysgolion yn cau ar ddydd Iau fwy o oblygiadau i rieni/gwarcheidwaid sydd efallai'n gorfod cymryd amser yn rhydd o'r gwaith i ofalu am eu plant. Felly, efallai nad yw pleidleisio ar ddydd Iau yn briodol mwyach. Mae angen ymgynghori'n eang er mwyn pennu unrhyw fylchau y bydd angen rhoi sylw iddynt o bosibl. Efallai y bydd grwpiau ffydd yn teimlo na allant bleidleisio ar y penwythnos, ond efallai y bydd ehangu'r dulliau pleidleisio sydd ar gael y tu hwnt i'r dull pleidleisio drwy'r post i gynnwys pleidleisio ymlaen llaw a phleidleisio electronig o bell yn dderbyniol yn lle pleidleisio ar benwythnos. Mae grwpiau cynrychioliadol yn nodi y byddai e-bleidleisio'n helpu pobl sydd â namau neu anableddau. Mae data gan ONS ar batrymau gweithio yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau a phatrymau teithio i'r gwaith a chyfrifoldebau gofal plant yn awgrymu mai merched yw'r prif ddarparwyr gofal plant. I'r gwrthwyneb, efallai nad oes cymaint o ddarpariaeth gofal ffurfiol ar gael ar benwythnosau. Hefyd, mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd am ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig a all effeithio'n arbennig ar bleidleiswyr hŷn.

Felly, mae nifer o faterion ac anghenion sydd, o bosibl yn gwrth-ddweud, y mae angen rhagor o ddata arnynt ac yr ydym yn ceisio'i gael.

10. A yw'r ddeddfwriaeth, y polisi neu'r gwasanaeth yn sensitif i anghenion a diwylliannau gwahanol grwpiau o bobl?

	Oes	Na	Ddim yn gwybod		Oes	Na	Ddim yn gwybod
Oedran	X			Grŵp Hil			X
Cyfrifoldebau Gofalu	X			Crefydd neu Gred	X		
Anabledd	X			Tueddfryd Rhywiol			X
Rhywedd	X						

Nodwch y dystiolaeth yr oeddech wedi seilio'r casgliad hwn arni

Nod yr ymchwiliad hwn yw canfod a yw pobl eisiau newid i bleidleisio ar benwythnos, proses a fydd yn cael ei chefnogi gan ddulliau ychwanegol gan y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i bobl ag anableddau neu ymrwymiadau teulu.

Mae rhai rhwystrau posibl nad ydynt wedi cael eu pennu ar hyn o bryd y byddai newid yn eu goresgyn. Ond, mae dydd Sadwrn a dydd Sul yn ddiwrnodau o ymlyniad crefyddol i bobl yn y DU a gall newid i bleidleisio ar y naill ddiwrnod neu'r llall felly beri problemau i rai pobl ar sail ffydd. Gobeithio y bydd yr ymatebion i'r papur ymgynghori yn darparu rhagor o dystiolaeth ar y mater penodol hwn, a hefyd ar faterion eraill a all fod yn berthnasol ond nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

11. A oes unrhyw dystiolaeth y gallai'r ddeddfwriaeth hon, y polisi hwn neu'r gwasanaeth hwn wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn unrhyw grŵp o bobl?

	Oes	Na	Ddim yn gwybod		Oes	Na	Ddim yn gwybod
Oedran			X	Grŵp Hil			X
Cyfrifoldebau Gofalu			X	Crefydd neu Gred			X
Anabledd			X	Tueddfryd Rhywiol			X
Rhywedd			X				

Nodwch y dystiolaeth yr ydych wedi seilio'r casgliadau hyn arni

Ni wyddys hyn eto ond byddem yn gwahodd barn fel rhan o'r broses ymgynghori.

12. Ydy'r polisi'n creu effeithiau cadarnhaol? Os ydyw, gwnewch restr ohonynt yma. Er enghraifft, a yw'n cael effaith lesol ar grŵp o bobl neu'n hybu cyfle cyfartal a/neu gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau o bobl?

Nid ydym yn gwybod hyn eto ond bydd yn cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dilyn cael ymatebion i'r Papur Ymgynghori.

13. Pa gamau y gellir eu cymryd i hybu cyfle cyfartal drwy newid deddfwriaeth, polisi neu wasanaeth, neu drwy weithio gydag eraill, er enghraifft, partneriaid? A oes unrhyw dystiolaeth bod cyfleoedd wedi'u colli i hybu cyfle cyfartal? Os oes, rhowch fanylion.

Fel y nodwyd yn gynharach, ceir rhywfaint o dystiolaeth y gall unigolion ag anableddau neu gyfrifoldebau gafael gael trafferth pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Felly mae'r papur ymgynghori'n gofyn ar bwy y byddai newid y diwrnod pleidleisio i benwythnos yn effeithio a sut. Bydd hefyd yn ceisio canfod a ddylid gwneud mwy o ddefnydd o bleidleisio o bell (naill ai drwy bleidleisio traddodiadol drwy'r post neu drwy ddull electronig) ochr yn ochr â phleidleisio ar benwythnos neu a ddylid ystyried rhagor ar drefniadau o'r fath hyd yn oed pe na fyddai'r diwrnod pleidleisio'n cael ei symud i'r penwythnos. Sefydliadau a grwpiau penodol a fydd yn cael eu hannog i ymateb yw Help the Aged, Age Concern, SCOPE a mudiadau yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau.

14. A oes angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb?

Os nad oes, eglurwch pam.

Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod yr Ymgynghoriad ac ar ôl i'r Ymgynghoriad ddod i ben.

15. Os nad oes angen asesiad cydraddoldeb llawn, pa ddata y bydd angen ei gael yn y dyfodol i sicrhau monitro effeithiol? Sut a pha bryd y bydd y polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu?

Amh

16. Unrhyw sylwadau eraill am y polisi a/neu'r broses sgrinio gychwynnol: **Dim ar hyn o bryd**
Dylech yn awr ysgrifennu crynodeb byr (llai na 50 o eiriau os oes modd) yn nodi pa bolisi, deddfwriaeth neu wasanaeth y mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymwneud ag ef, sut y gwnaethoch ei asesu, crynodeb o'r effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ac unrhyw benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd neu welliannau a wnaed o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cyhoeddir y crynodeb ar wefan allanol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu archwilio'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i bleidleisio a sut y gellir goresgyn y rhain. Bydd y Papur Ymgynghori'n canolbwyntio ar y rhwystrau i bleidleisio ar ddiwrnod etholiad, ac a all y rhain gael eu goresgyn drwy symud diwrnod etholiad i'r penwythnos. Un o nodau strategol y Llywodraeth yw sicrhau bod pobl yn gallu ymarfer eu hawl i bleidleisio mewn ffordd hwylus a heb rwystrau diangen.**
Enw (rhaid bod ar radd 5 neu'n uwch): **Mark Sweeney**
Adran: **Yr Adran Polisi Etholiadol**
Dyddiad: 4 Mehefin 2008
Os na phennwyd unrhyw effeithiau anffafriol ac os na wneir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb, byddwch cystal ag anfon copi o'r ddogfen sgrinio cychwynnol ynghyd â chrynodeb drwy'r e-bost i'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol. Os yw asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb yn ofynnol, cadwch y ddogfen sgrinio cychwynnol nes cwblhau'r asesiad effaith llawn ac wedyn anfon y ddogfen sgrinio cychwynnol a'r asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb gyda'i gilydd i'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.

Cydlynydd Ymgynghoriadau manylion cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori yn hytrach nag am y pwnc a drafodir yn y papur hwn, dylech gysylltu â Gabrielle Kann, Cydlynydd Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 020 7210 1326, neu anfon e-bost ati yn: consultation@justice.gsi.gov.uk

Neu gallwch ysgrifennu ati yn y cyfeiriad isod:

Gabrielle Kann
Cydlynydd Ymgynghoriadau
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
5th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Os yw eich cwyn neu sylw'n ymwneud â'r pwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach na phroses yr ymgynghoriad, dylech eu cyfeirio at y person cyswllt a enwir o dan **Sut i ymateb** yn y papur hwn, ar dudalen 23.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited
ar ran Trefnydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 5656772 O6/08

Argraffwyd ar Bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac mae ar gael:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Gallwch archebu drwy ffonio'r Llinell Seneddol Cost Isel ar 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

Siopau'r Llyfrfa
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Y Siop Lyfrau Seneddol
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX

TSO@Blackwell **ac Asiantau Achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-173342-7
9 780101 733427